**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD IAU, 18 MAWRTH 2021**

**BWRDD ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT Y CABINET**

**O BELL TRWY TEAMS**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: A.R.Lockyer a/ac P.A.Rees (Cadeirydd)

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

A.Evans, C.Millis, H.Lervy, H.Lewis, P.Walker, J.Burge, K.Gilbert, R.Bowen, C.Davies a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd P A Rees yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Estynnodd y Cadeirydd ddymuniadau gorau, ar ran yr Aelodau, i Aled Evans, a fyddai'n ymddeol cyn bo hir o swydd Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Nodwyd bod gan aelodau oddefeb a oedd yn caniatáu iddynt siarad a phleidleisio ar faterion ysgolion.

Gwnaeth y swyddog canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

Wayne John - parthed: Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2019-20, gan ei fod yn

aelod o Grŵp Cyfeirio Llywodraethu Cymru ar Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr, 2021.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2021-2022**

Nodi'r Blaenraglen Waith.

6. **PENODI A DISWYDDO CYNRYCHIOLWYR LLYWODRAETHWYR YR AWDURDOD LLEOL**

**Penderfyniadau:**

Yn unol â'r polisi cymeradwy, dylid penodi Cynrychiolwyr Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol i'r swyddi gwag presennol a'r swyddi gwag sydd ar ddod fel a ganlyn, ac fel y nodir yn atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd:

| Ysgol | Dyddiad y Swydd Wag | Penderfyniad |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Blaengwrach | Yn syth | Penodi Mrs Yun Yun Herbert |
| Ysgol Gynradd Coedffranc | Yn syth | Gwneir penodiad yn y dyfodol |
| Ysgol Gynradd Cwmnedd | Yn syth | Penodi Mr Richard Knoyle |
| Ysgol Gynradd y Gnoll | Yn syth | Gwneir penodiad yn y dyfodol |
| Ysgol Gynradd Godre’r-graig | Yn syth | Penodi Mrs Delyth Danaher |
| Ysgol | Yn syth | Gwneir penodiad yn y dyfodol |

| | | |
|---|---|---|
| Gynradd Sandfields | | |
| Ysgol Gynradd Gatholig San Joseff | Yn syth | Gwneir penodiad yn y dyfodol |
| Ysgol Gynradd Gatholig San Joseff | Yn syth | Gwneir penodiad yn y dyfodol |
| Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth San Joseff | Yn syth | Gwneir penodiad yn y dyfodol |
| Ysgol Gynradd Tonnau | Yn syth | Gwneir penodiad yn y dyfodol |
| YGG Castell Nedd | Yn syth | Penodi Mr Christopher Shaw |
| YGG Pontardawe | Yn syth | Gwneir penodiad yn y dyfodol |
| YGG Rhosafan | Yn syth | Penodi Mrs Sarah-Louise Hockin |
| Ysgol Bae Baglan | Yn syth<br>Yn syth | Gwneir penodiad yn y dyfodol<br>Gwneir penodiad yn y dyfodol |
| Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur | Yn syth | Penodi Mr Gavin Thomas |

**<u>Rheswm dros y penderfyniadau:</u>**

Galluogi'r Awdurdod i gyfrannu at lywodraethu ysgolion yn effeithiol drwy gynrychiolaeth ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**<u>Rhoi Penderfyniadau ar Waith:</u>**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 7. SAFONAU LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS CYMRU, ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019-2020

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru i Lywodraeth Cymru 2019-20, a nodi cynnwys Adroddiad Asesu Blynyddol 2019-20.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i gydymffurfio â'i ddyletswydd statudol o ddarparu gwasanaeth llyfrgell yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 8. DERBYNIADAU YSGOLION CYMUNEDOL 2022 - 2023

Nododd yr Aelodau ddiwygiad i'r adroddiad a ddosbarthwyd. Esboniodd swyddogion y dylai Paragraff 9 ddweud:

'Yn ei gyfarfod ar 25 Tachwedd 2020, cymeradwyodd y ***Cabinet*** ymgynghoriad ar drefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer ysgolion cymunedol.'

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, ac yn unol â'r Côd Derbyn i Ysgolion 2013 a Rheoliadau Addysg (Penderfynu Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006, penderfynwyd cymeradwyo'r trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol mewn perthynas â blwyddyn academaidd 2022/2023, fel y nodir yn atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i gyflawni dyletswyddau statudol a chanllawiau arfer da mewn perthynas â derbyn disgyblion i ysgolion cymunedol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

9. **DYDDIADAU TYMHORAU YSGOL 2023-2024**

**Penderfyniad:**

Dylid cytuno ar ddyddiadau tymhorau ysgol 2023/2024 (fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd) ar gyfer ymgynghori, a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwrnod gwaith terfynol mis Awst 2021.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

10. **CYFANSODDIAD DIWYGIEDIG FFORWM YSGOLION**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo Cyfansoddiad Diwygiedig Fforwm Ysgolion, fel y'i nodir yn atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r awdurdod i barhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

11. **SYSTEM RHEOLI GWYBODAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

**Penderfyniad:**

Ar ôl ystyried yr Asesiad Effaith Integredig, dylid dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Trawsnewid i gynnwys y cyngor yn y trefniadau cytundebol a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Caniatáu i'r awdurdod fwrw ymlaen â threfniadau cytundebol gyda'r darparwr, yn barod ar gyfer gweithredu deddfwriaeth newydd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

12. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**Penderfyniad:**

Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

13. **HEN GAE ASTROTURF LLIFOLEUEDIG YSGOL GYFUN CYMER AFAN (EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Datgan bod y cae astro turf annibynnol â llifoleuadau ar dir Ysgol Gynradd Cymer Afan, fel cyfleuster dros ben i ofynion gweithredol parhaus y Gwasanaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio i ddechrau trafodaethau ar brydles bosib.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

14. **TRAETH ABERAFAN - GWASANAETH ACHUB BYWYD (EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cynnig i ymrwymo i gontract fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, o ran darparu Gwasanaeth Achub Bywyd ar Draeth Aberafan.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau bod y cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaeth achub bywyd traeth proffesiynol ar Draeth Aberafan.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**CADEIRYDD**